



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfrinachedd

Yn y daflen hon, rydym am wneud yn glir:

- Sut rydyn ni'n cael gwybodaeth bersonol amdanoch chi;
- Pam rydyn ni'n cadw'r wybodaeth;
- Beth rydyn ni'n ei wneud â'r wybodaeth;
- Pwy arall sy'n gweld yr wybodaeth;
- Sut fedrwn chi ganfod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi



Os ydych angen y ddogfen yma mewn fformat gwahanol, er enghraifft print bras, cysylltwch â ni.

Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfrinachedd


Er mwyn i ni wneud ein gwaith fel cymdeithas dai rydyn ni'n casglu ac yn storio gwybodaeth bersonol am ein tenantiaid, pobl eraill sy'n byw yn ein tai ac ymgeiswyr am dai. Mae'r wybodaeth hon (o'r ffurflenni tenantiaeth, cyfweiliadau â swyddogion ac ati) yn cael ei alw'n 'ddata personol'. Mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i chi wybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi, ac mae'n ofynnol i ni ei defnyddio yn deg a phriodol mewn ffyrdd rydych chi'n eu deall. Hefyd cewch ofyn i ni gywiro'r wybodaeth os yw'n anghywir.

Yn y daflen hon, rydym am wneud yn glir:

- Sut rydyn ni'n cael gwybodaeth bersonol amdanoch chi
- Pam rydyn ni'n cadw'r wybodaeth
- Beth rydyn ni'n ei wneud â'r wybodaeth
- Pwy arall sy'n gweld yr wybodaeth
- Sut fedrwn chi ganfod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi

Terminoleg

Mae'r gyfraith ynghylch diogelu data yn defnyddio geiriau ag ystyron arbennig. Y prif dermau ydy:



Data Personol:	Gwybodaeth am unigolyn, fel enw neu gyfeiriad.
Data Personol Sensitif:	Mae data personol sensitif yn cael ei ddiffinio fel data personol sy'n cynnwys gwybodaeth megis; <ul style="list-style-type: none">• tarddiad ethnig neu hiliol• barn wleidyddol• credoau crefyddol neu eraill• aelodaeth undeb llafur• cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol• rhywioldeb• troseddau a gyflawnwyd neu honiadau o droseddau• unrhyw achosion am unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu yr honnir iddi gael ei chyflawni, gwaredu achosion o'r fath neu ddedfryd unrhyw lys mewn achos o'r fath
Prosesu:	Mae prosesu yn golygu casglu, cofnodi, datgelu, cadw, defnyddio, dileu neu ddinistrio'r data neu cyflawni unrhyw weithred neu set o weithrediadau ar ddata.
Rheolwr Data:	Y sefydliad sy'n trin y data. Yn yr achos hwn Grŵp Cynefin ydy'r sefydliad.
Gwrthrych y Data:	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddo – chi.

1. Sut rydyn ni'n casglu gwybodaeth amdanoch chi?

Rydych chi'n rhoi gwybodaeth i ni pan fyddwch yn cysylltu â ni. Er enghraifft:

- Rydych chi'n rhoi eich enw a'ch cyfeiriad i ni wrth wneud cais am gartref
- Fe allech chi roi manylion personol i ni wrth ffonio i holi am eich tenantiaeth neu ofyn i ni wneud gwaith trwsio

Fe all sefydliadau eraill roi gwybodaeth amdanoch chi i ni. Er enghraifft:

- Gall landlordiaid eraill neu awdurdodau lleol roi gwybodaeth i ni am eich cyfeiriadau blaenorol
- Gall yr awdurdod lleol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau ddweud wrthym ni am geisiadau am fudd-dal tai a budd-daliadau eraill gennych chi.

2. Pam rydyn ni'n cadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi?

Fe allem ni brosesu eich data personol am nifer o resymau, yn cynnwys:

- Asesu eich cais am gartref a phenderfynu ar eich anghenion lletya
- Ein helpu ni gyda chasglu'r rhent, budd-dal tai ac uchafu eich incwm chi
- Trwsio a chynnal a chadw ein cartrefi a chyfleusterau eraill
- Teilwra ein gwasanaethau a bodloni eich anghenion iechyd a chefnogaeth
- Rhoi gwybodaeth amdanom ni a allai fod o ddiddordeb i chi
- Cynnal arolygon a darparu ystadegau i asiantaethau'r llywodraeth
- Atal a lleihau troseddu a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Monitro cyfleoedd cyfartal
- Mae'r gyfraith yn caniatáu prosesu peth gwybodaeth heb eich caniatâd chi, er enghraifft, gwybodaeth monitro ethnig

3. Beth rydyn ni'n ei wneud â'r data personol?

Mae Grŵp Cynefin yn cael ei adnabod fel 'rheolwr data'. Mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud â data yn dibynnu ar eich amgylchiadau penodol chi, a'r bobl sy'n byw gyda chi. Mae'r gyfraith yn nodi'n glir y cawn ni ddefnyddio'r data ar gyfer y dibenion a nodwyd ymlaen llaw yn unig. Nod y gyfraith ydy eich gwarchod chi, ac mae'n datgan:

- Bod rhaid i unrhyw ddata rydyn ni'n ei gadw gael ei brosesu'n deg a chyfreithlon ac at y pwrpas a nodwyd yn unig
- Bod rhaid i'r data fod yn gywir, yn berthnasol a pheidio â bod yn ormodol
- Na ddylid cadw'r data yn hirach nag sy'n angenrheidiol;
- Bod rhaid gwarchod y data rhag ei gollu'n ddamweiniol neu ei ddefnyddio'n ddiawdurdod

4. Lle rydyn ni'n cadw gwybodaeth a phwy sy'n cael ei gweld?

Gellir cadw data personol mewn system ffeilio ar bapur neu ar gyfrifiadur.

Rydyn ni wedi ymrwymo i warchod eich preifatrwydd a'ch manylion personol chi. Dim ond staff priodol Grŵp Cynefin sy'n cael gweld eich data personol chi, ac maen nhw'n sicrhau eu bod yn trin yr holl ddata personol mewn cyfrinachedd llwyr.

Mae rhai amgylchiadau lle rydyn ni'n datgelu data i eraill. Gallai hyn olygu ein contractwyr neu ein cynghorwyr cyfreithiol; landlordiaid cymdeithasol eraill; awdurdodau lleol; adrannau'r Llywodraeth a'r heddlu. Pan fyddwn ni'n datgelu data rydyn ni'n gwneud ein gorau i sicrhau ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel a'i ddefnyddio'n briodol.

Fel arfer mae data personol sensitif yn cael ei weld gan staff Grŵp Cynefin yn unig, fel yn achos data personol. Fodd bynnag, gellir cael amgylchiadau lle caiff ei ddatgelu wrth eraill. Yn

gyffredinol, byddwch chi'n cael gwybod am hyn. Er enghraifft, pan fyddwn ni'n cadarnhau gwybodaeth â meddyg neu weithiwr cymdeithasol; neu'n rhoi gwybodaeth i landlord cymdeithasol arall pan fyddwch chi neu'r rhai sy'n byw gyda chi wedi gofyn am symud i fyw. Serch hynny, mae rhai amgylchiadau lle bo'r gyfraith yn caniatáu i ni ddatgelu data personol heb eich caniatâd chi.

5. Be' os ydy'r wybodaeth yn anghywir?

Os ydych chi'n gweld gwybodaeth sy'n anghywir, gadewch i ni wybod ac fe wnawn ni gywiro'r wybodaeth.

Os ydych chi'n dioddef niwed corfforol neu ariannol o ganlyniad i wybodaeth anghywir, mae gennych chi'r hawl i gael eich digolledu. Fe gewch chi hawlio iawndal hefyd os ydy eich manylion chi yn cael eu colli, eu difrodi neu eu difa heb eich awdurdod chi. Os ydych chi'n anfodlon y cam cyntaf ydy ysgrifennu llythyr cwyno at yr Swyddog Polisi a Pherfformiad. Os nad ydym ni'n datrys eich cwyn yn foddhaol, cewch gyfeirio eich pryderon at y Comisiynydd Gwybodaeth (manylion cyswllt dan y pennawd Rhagor o Wybodaeth ar y daflen hon).

6. Sut fedrwch chi ganfod pa wybodaeth amdanoch chi sydd gennym ni?

Mae mwyafrif yr wybodaeth rydyn ni'n ei chadw amdanoch chi'n gymharol amlwg, ac yn y rhan fwyaf o achosion rydyn ni'n cadw'r wybodaeth oherwydd eich bod chi neu eraill sy'n byw gyda chi wedi rhoi'r wybodaeth i ni.

Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn rhoi'r hawl i chi ofyn pa ddata personol amdanoch chi rydyn ni'n ei gadw.

Mae rhai eithriadau penodol i'r hawl hwn. Er enghraifft, gellid



eich hatal chi rhag gweld peth gwybodaeth petai'n bosibl i chi adnabod rhywun arall o'r wybodaeth a'u bod nhw'n gwrthwynebu; neu efallai bod ymrwymiad cyfreithiol arnom ni i beidio â datgelu'r data; neu gallai'r wybodaeth helpu i atal neu ddatrys trosedd. Nid oes rhaid i ni ddweud wrthrych chi os ataliwyd gwybodaeth. Os ydych chi'n amau bod gwybodaeth wedi'i hatal heb gyfiawnhad, dylech gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth (manylion cyswllt dan y pennawd Rhagor o Wybodaeth ar y daflen hon).

7. Gwybodaeth Ychwanegol

Rydyn ni wedi dweud wrth Gomisiynydd Gwybodaeth y Llywodraeth pa ddata rydyn ni'n ei gasglu a sut rydyn ni'n ei ddefnyddio. Cewch ganllawiau manwl am eich hawliau a sut i wneud cwyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

2il Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067 8399

E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk

Gwefan: www.dataprotection.gov.uk

Mae'n bosibl i chi gael cyngor a chymorth gan Cyngor ar Bopeth (CAB) os dymunwch.

Gwefan: www.adviceguide.org.uk/

ico.
Information Commissioner's Office



8. Gweld pa wybodaeth amdanoch chi sydd gennym ni

Os hoffech chi weld pa wybodaeth amdanoch chi sydd gennym ni, cysylltwch â:

Swyddog Polisi a Pherfformiad
Tŷ Silyn
Y Sgwâr
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6LY

Ffôn: 0300 111 2122
E-Bost: post@grwpcynefin.org

Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus a gwneud yn siwr mai chi ydy pwy rydych chi'n ddweud ydych chi, a bydd angen i ni gael gwybodaeth gennych chi i wirio hynny. Mae gennym ni ffurflen i chi ei llenwi y gallwn ein hanfon atoch chi. Bydd angen i chi ei hanfon yn ôl trwy'r post, trwy e-bost neu trwy law i un o'n swyddfeydd ni.

Codir uchafswm ffi o £10.00 am ein costau gweinyddol.

Unwaith y byddwn ni wedi dilysu eich manylion chi, dod o hyd i'ch cofnodion, a derbyn y ffi, mae'n rhaid i ni ymateb i chi cyn pen 40 diwrnod.

Fe wnawn ni roi copi o'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch i chi, ynghyd â manylion o lle daeth yr wybodaeth, egluro pam bod gennym ni'r wybodaeth a rhoi manylion am unrhyw un arall a allai fod wedi gweld yr wybodaeth.